

CYNLLUN GWERS CALCH

Pwnc	Uned	Gwers	Cyfnod Allweddol
Daeryddiaeth	3	Y dirwedd a gafodd ei gadael ar ôl	CA2/3

Amcanion dysgu: Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu:

- Bydd rhai disgyblion yn deall bod yna fanteision ac anfanteision cymhleth wrth ystyried cloddio.
- Bydd mwyafrif y disgyblion yn ffurfio barn o blaid neu yn erbyn cloddio.
- Bydd pob disgybl yn deall bod y dirwedd wedi'i ffurfio dros filiynau o flynyddoedd.

Geiriau allweddol: calchfaen, chwarel, cloddio, lidar

Cyflwyniad:

Wedi adolygiad byr yn dilyn yr ymweliad â'r safle i brofi gwybodaeth flaenorol, gall y disgyblion yn awr edrych ar y delweddau lidar o'r safle a mesur effaith y cloddio ar y dirwedd. Mae hwn yn gyfle i archwilio'r amgylchedd newydd a pha newidiadau sydd wedi dod yn sgil y cloddio.

Amseru
(Yn seiliedig ar 60 mun)
5-10 mun

Prif ran:

Pa nodweddion o'r safle sy'n fwy eglur wrth ddefnyddio'r lidar?

5 mun

Gweithgaredd un

Dylai'r disgyblion lunio tabl yn eu llyfrau gwaith a chofnodi nodweddion y safle cyn ac ar ôl y cloddio. Dylai'r disgyblion feddwl am y gwahaniaethau yn y safle cyn ac ar ôl y cloddio. Ar gyfer disgyblion iau neu ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, mae yna daflen waith ar gael gyda'r uned hon. Beth ydy'r gwahaniaethau cyn ac ar ôl y cloddio?

10-15 mun

Yn dilyn hyn, gall y disgyblion ateb y cwestiwn hwn:

5-10 mun

“A oedd cloddio'r Mynydd Du yn beth da neu'n beth drwg?” Gallai hwn fod yn asesiad ar gyfer disgyblion hŷn. Edrychwch ar y daflen waith gysylltiedig.

Gweithgaredd dau – gwaith grŵp

Dychmygwch mai panel yn gweithio ar gyfer adran gynllunio'r cyngor ydy aelodau'ch grŵp. Rydych wedi rhoi caniatâd i chwarel galch gael ei hagog. Fodd bynnag, bydd rhaid i chi benderfynu beth fydd yn digwydd i'r safle wedi i'r cloddio ddod i ben ac ar gyfer beth y bydd yn cael ei ddefnyddio. Dylai pob grŵp dderbyn taflen A3 i nodi'u syniadau.

15-20 mun

Sut y bydd y safle'n cael ei aildefnyddio? Meddyliwch am natur ac anifeiliaid, gweithgareddau hamdden neu ddibenion eraill.

Dylai'r disgyblion roi cyflwyniad byr, mewn grwpiau, ar yr hyn y dylid ei wneud i'r chwarel wedi i'r gwaith ddod i ben. Gorffennwch yr ymarfer hwn trwy ddangos delweddau PowerPoint ar y defnydd sy'n cael ei wneud o rai chwareli heddiw.

Sesiwn lawn:

Gorffennwch gyda phleidlais ddsbarth – Pwy sy'n credu bod cloddio'r Mynydd Du wedi bod yn beth da? Pwy sy'n credu ei fod wedi bod yn beth drwg? Gofynnwch i ambell ddisgybl pam y mae'n credu hyn a thynnwch sylw at ddadleuon eraill.

5-10 mun

Gwahaniaethu: Mae taflen waith ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei chynnwys ar gyfer gweithgaredd un. Mae yna hefyd ffrâm ysgrifennu ar gyfer ysgrifennu ymestynnol/asesu yn cael ei chynnwys ar gyfer y cwestiwn, “Oedd chwarela ar y Mynydd Du yn beth da neu’n beth drwg?”

Asesu:

Trwy gyfrwng pleidlais ddsbarth a thrafodaeth, a hefyd trwy farcio gwaith ysgrifenedig.

Adnoddau: cyflwyniad PowerPoint, ffrâm ysgrifennu ‘Peth da neu beth drwg’, taflen waith tabl gwahaniaethau, pecyn delweddau lidar

Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:

Llythrennedd – gellir cysylltu’r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Gofynnir i’r disgyblion siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith briodol*
- *Cyfrannu at drafodaeth grŵp*
- *Gwrando ar eraill ac ymateb iddyn nhw*
- *Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol*